Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffygion yn O.S. 2018/645 (Cy. 119), O.S. 2024/767 (Cy. 112), O.S. 2012/801 (Cy. 110) ac O.S. 2016/55 (Cy. 25) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 815 (Cy. 145)

# ANIFEILIAID, CYMRU

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio pedwar Gorchymyn.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("Gorchymyn 2018").

Mae erthygl 2 yn rhoi Tabl 1 newydd yn lle'r un presennol yn yr Atodlen i Orchymyn 2018 fel nad oes anghysondebau rhwng geiriad y cofnodion yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw. Gwneir erthygl 2 o dan adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/767) (Cy. 112) ("Gorchymyn 2024").

Mae'n mynd i'r afael â gwallau yng Ngorchymyn 2024 ac yn darparu diffiniad diwygiedig o "maint glanio lleiaf". Gwneir diwygiadau yn Rhan 3 o dan

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

adrannau 189(1) a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru wedi eu cyhoeddi ar www.llyw.cymru/deddfwriaeth-pysgodfa-glannau-gogledd-cymru-gogledd-orllewin-lloegr. Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru wedi eu cyhoeddi ar www.llyw.cymru/deddfwriaeth-pysgodfeydd-glannau-de-cymru.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012").

Mae erthygl 14 yn diwygio paragraff (n) o'r tabl dehongli yn Atodlen 4 i Orchymyn 2012 (ymgyngoriadau cyn rhoi caniatâd) i roi'r geiriau "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru" yn lle "Gyfoeth Naturiol Cymru". Gwneir erthygl 14 o dan adrannau 59(1), (2)(b) a (3)(a), a 74(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae Rhan 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016").

Mae erthygl 15 yn diwygio paragraff (j) o'r tabl dehongli yn Atodlen 5 i Orchymyn 2016 (dyletswydd i ymgynghori cyn rhoi caniatâd) i roi'r geiriau "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru" yn lle "Gyfoeth Naturiol Cymru". Gwneir erthygl 15 o dan adrannau 61Z(8) a (9), a 62R o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 815 (Cy. 145)

## ANIFEILIAID, CYMRU

## PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

*Gwnaed* *6 Gorffennaf 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *9 Gorffennaf 2025*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2025*

CYNNWYS

RHAN 1
Cyflwyniad

1.–3. Enwi a dod i rym

RHAN 2
Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

RHAN 3
Diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

4.–5. Diwygio Rhan 1 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

6.–9. Diwygio Rhan 3 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024
10. Diwygio Rhan 4 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024
11. Diwygio Atodlen 1 (Ardal Benodedig) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024
12. Diwygio Atodlen 2 (Amodau trwydded) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024
13. Diwygio Atodlen 3 (Dirymu a diwygio) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

RHAN 4
Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

RHAN 5
Diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) adrannau 189(1) a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009([1]);

(b) adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid

([1]) 2009 p. 23. Diwygiwyd adran 189 gan baragraff 28 o Atodlen 10 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22). Disgrifir ymhellach yn adrannau 156 i 158 y ddarpariaeth y caiff yr awdurdod ar gyfer ardal pysgodfeydd a chadwraeth y glannau ei gwneud drwy is-ddeddf o dan adran 155 at y dibenion a nodir yn adrannau 153 a 154.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1981(**1**);

(c) adrannau 59(1), (2)(b) a (3)(a)(**2**), 61Z(8) a (9)(**3**), 62R a 74(1)(c)(**4**) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**5**).

# RHAN 1

## Cyflwyniad

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw i rym ar 1 Awst 2025.

---

(**1**) 1981 p. 22 ("y Ddeddf"). Diffinnir y term "the Ministers" yn adran 86(1)(c). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau "the Ministers" o dan adran 84(1) o'r Ddeddf, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban o ran Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, trosglwyddir swyddogaethau Gweinidog y Goron yn rhydd rhag y gofyniad am gymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 84(1).

(**2**) Diwygiwyd adran 59 gan adrannau 27 a 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"), a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi, a chan adran 1(2) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27), a pharagraffau 1 a 4 o Atodlen 1 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2015.

(**4**) Ceir diwygiadau i adran 74 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**5**) 1990 p. 8 ("Deddf 1990"). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan O.S. 2000/253. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi. Gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf 1990 sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu o ran Cymru yw gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 2

## Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

**2.** Yng Ngorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018(**1**), yn yr Atodlen, yn lle Tabl 1 rhodder—

**“Tabl 1**

**Ffioedd sy’n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) neu (5) o’r Gorchymyn hwn**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| *Gweithgaredd* | *Ffi (£) am geisiadau sy’n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir* |
| Cais am ddyroddi neu (pan fo’r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 o funudau o amser arolygu. | 433 |
| Cais am ddyroddi neu (pan fo’r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 90 o funudau o amser arolygu. | 780 |
| Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau, a’i bod yn ofynnol cynnal un ymweliad arolygu yn unig er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygu. | 387 |
| Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau, a’i bod yn ofynnol felly gynnal dau ymweliad arolygu er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae’r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 75 o funudau o amser arolygu. | 550” |

(**1**) O.S. 2018/645 (Cy. 119), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1156 (Cy. 239), O.S. 2024/1109 (Cy. 185).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 3

## Diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**3.** Mae Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024(**1**) wedi ei ddiwygio yn unol ag erthyglau 4 i 13.

### Diwygio Rhan 1 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**4.** Yn erthygl 1 (enwi, cymhwyso a dod i rym), ar ôl paragraff 1(2), mewnosoder—

> "(3) Yn yr erthygl hon, mae i "Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**)."

**5.**—(1) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(2) Yn testun Saesneg, hepgorer ""cockles" ("*cocos*") means shellfish of the type *Cerastoderma edule*;";

(3) Yn y testun Saesneg, ar ôl y diffiniad o "cockle bed" ac o flaen y diffiniad o "environmental assessment" mewnosoder ""cockles" ("*cocos*") means shellfish of the type *Cerastoderma edule*;";

(4) Yn nhestun Saesneg y diffiniad o "harvestable surplus", yn lle "gornifer cocos y gellir eu" rhodder "*gornifer cocos y gellir eu cynaeafu*") means the live weight of cockles that";

(5) Hepgorer "mae i "Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;";

(6) Yn y testun Cymraeg hepgorer "mae i "manteisio ar" yr un ystyr ag a roddir i "exploitation" yn adran 153(12) o Ddeddf 2009;".

### Diwygio Rhan 3 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**6.** Yn erthygl 8 (gofyniad am drwydded), yn lle paragraff (3), yn y testun Cymraeg, rhodder "(3) Bydd y drwydded yn galluogi'r deiliad trwydded i bysgota am gocos neu gymryd cocos o welyau cocos sydd ar agor yn ystod y cyfnod trwydded."

**7.**—(1) Yn erthygl 9 (amodau trwydded)—

(2) Ym mharagraff (4), yn lle "bydd Gweinidogion Cymru yn" rhodder "rhaid i Weinidogion Cymru";

---

(**1**) O.S. 2024/767 (Cy. 112).
(**2**) 2006 p. 32.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn lle is-baragraff (7)(b), rhodder "(b) ystyr "maint glanio lleiaf" yw'r maint lleiaf o gocosen a gedwir gan fesurydd sydd ag agoriad sgwâr o X o filimetrau o'i fesur ar draws pob ochr o'r sgwâr. "X" yw'r mesuriad a osodir mewn amodau sydd ynghlwm wrth drwydded a ddyroddir o dan erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn".

**8.** Yn erthygl 10 (personau â hawlogaeth i gael trwydded), yn lle is-baragraff (1)(a), yn y testun Cymraeg, rhodder "(a) os yw'n 16 oed neu'n hŷn,".

**9.** Yn lle erthygl 12(1) (ffioedd trwydded) rhodder—

"(1) Mewn perthynas â'r ffi drwydded flynyddol—

(a) bydd i'w phennu gan Weinidogion Cymru,

(b) rhaid iddi fod yn gymwys i bob trwydded, ac

(c) rhaid iddi fod yn gymwys hyd yn oed pan wneir cais am drwydded a phan y'i dyroddir ran o'r ffordd drwy gyfnod trwydded."

## Diwygio Rhan 4 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**10.** Yn erthygl 16 (datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau), yn lle paragraff (2) rhodder "Rhaid i ddatganiadau a hysbysiadau a wneir o dan y Gorchymyn hwn gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a, phan fo'n ymarferol, rhaid i ddatganiadau gael eu gosod mewn lleoliadau amlwg ar y gwely cocos neu gerllaw iddo."

## Diwygio Atodlen 1 (Ardal Benodedig) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**11.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(1)(c)(i), yn y testun Saesneg, yn lle "High Water Mark or Ordinary Tides" rhodder "High Water Mark of Ordinary Tides".

## Diwygio Atodlen 2 (Amodau trwydded) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

**12.** Yn Atodlen 2, ym mharagraff 7 (casglu a didoli cocos), yn y testun Cymraeg, yn lle "ystyrir" rhodder "bernir".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Atodlen 3 (Dirymu a diwygio) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024**

**13.**—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(2) Ym mharagraff 3(3), yn lle “the Cockle Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024” rhodder “the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024”;

(3) Ym mharagraff 3(4)(c), yn lle “ym mharagraff 2” rhodder “ym mharagraffau 2 a 3, yn y ddau le y mae’n digwydd”;

(4) Ym mharagraff 6(1), yn y testun Cymraeg, yn lle “Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru” rhodder “De Cymru”.

## RHAN 4

### Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

**14.** —(1) Mae Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) O dan y pennawd “Dehongli’r Tabl”, yn y diffiniad o “Parthau Amddiffynedig TAN 15” ym mharagraff (n), yn lle “Gyfoeth Naturiol Cymru” rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

## RHAN 5

### Diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

**15.**—(1) Mae Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) O dan y pennawd “Dehongli’r Tabl”, yn y diffiniad o “Parthau Amddiffynedig TAN 15” ym mharagraff (j), yn lle “Gyfoeth Naturiol” rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

---

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110). Amnewidiwyd Atodlen 4 gan erthyglau 2 a 5(3) o O.S. 2016/59 (Cy. 29) ac Atodlen 2 iddo ac fe’i diwygiwyd gan O.S. 2025/400 (Cy. 80); ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r offeryn hwn.

(**2**) O.S. 2016/55 (Cy. 25). Mewnosodwyd paragraff (j) o’r tabl dehongli yn Atodlen 5 gan erthygl 2(7) o O.S. 2019/290 (Cy. 68) a pharagraffau 1 a 3(b) o Atodlen 3 iddo, ac fe’i diwygiwyd gan O.S. 2025/400 (Cy. 80); ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i’r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Eluned Morgan*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
6 Gorffennaf 2025